Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Rhydypennau

Bow Street
Ceredigion
SY24 5AD

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Rhydypennau

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymunedol Rhydypennau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 194 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 132 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 32 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 11.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 5.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 15.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/16 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/10/17 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/03/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn a doeth sy’n gosod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae ganddo weledigaeth gref sy’n canolbwyntio ar greu cymuned ddysgu hapus, ofalgar a chynhwysol lle mae lles a chynnydd disgyblion yn ganolog. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion, ac mae ethos cryf o gydweithio ymhlith yr holl staff yn nodwedd amlwg o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ei dysgu ac yn ymddwyn yn dda.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ddysgu proffesiynol ac yn sicrhau bod targedau gwella staff yn cysylltu’n glir â blaenoriaethau’r ysgol. Maent yn defnyddio ymchwil gweithredol yn effeithiol i gryfhau dealltwriaeth staff o addysgu a dysgu sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at ansawdd y ddarpariaeth.

Mae staff wedi datblygu cwricwlwm diddorol a chynhwysol sy’n ennyn ac yn cynnal diddordeb disgyblion yn fedrus. Mae’r ddarpariaeth yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol llawer o ddisgyblion yn effeithiol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen addas yn y ddwy iaith, ac yn siarad Cymraeg yn hyderus wrth iddynt aeddfedu. Er hyn, wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae ychydig o ddisgyblion yn tueddu i droi i’r Saesneg wrth gyfathrebu â’i gilydd yn rhy aml.

Mae athrawon yn defnyddio syniadau disgyblion yn effeithiol wrth gynllunio gweithgareddau ‘cer am her’. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae athrawon yn gor-arwain y dysgu, sy’n cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu ac i wneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau dros amser.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o’r ardal leol a’r gymuned i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth foesol a thrafod materion cyfoes. Er hyn, mae dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb, amrywiaeth a hunaniaethau gwahanol yn llai datblygedig.

## Argymhellion

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella**

**A1 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith**

**A2 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a’u hunaniaethau mewn cymunedau gwahanol**

## Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

## Prif werthusiad

Mae arweinyddiaeth gadarn a doeth y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn sy'n seiliedig ar greu amgylchedd dysgu ofalgar a chynhwysol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae ethos o weithio fel tîm cynhyrchiol ymysg athrawon a chynorthwywyr yn elfen nodedig o'r ysgol. Mae'r holl staff yn darparu profiadau dysgu ysgogol a difyr sy'n diwallu anghenion y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chyfeillgar.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Mae gan bob aelod o staff nodau gwella sy'n cysylltu'n agos â meysydd gwella'r ysgol a'u blaenoriaethau unigol fel rhan o'r trefniadau dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cefnogi ymagwedd gydweithredol at wella a chodi dyheadau staff i ystyried y camau nesaf yn eu gyrfaoedd.

### Ciplun: Datblygu addysgu a dysgu drwy ymchwil weithredol

Mae arweinwyr yn ymgymryd yn rhagweithiol ag ymchwil gweithredol er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o addysgu a dysgu effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y dulliau o gyflwyno'r cwricwlwm, er enghraifft wrth ddwysáu medrau mathemategol a rhifedd disgyblion. Mae dealltwriaeth gadarn staff wrth ddarparu gweithgareddau dilynol yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd parhaus yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn adalw gwybodaeth a medrau a ddysgwyd yn flaenorol, ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus mewn cyd-destunau newydd yn effeithiol.

Mae staff wedi datblygu cwricwlwm diddorol sy'n ennyn ac yn cynnal diddordeb disgyblion ar draws yr ysgol. Yn ddiweddar, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddefnyddio eu syniadau wrth ddarparu gweithgareddau a themâu ysgogol. Mae naws gynhwysol y cwricwlwm yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, i wneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau llafar disgyblion. Wrth iddynt aeddfedu, mae'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg yn rhugl. Fodd bynnag, wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae ychydig yn tueddu i droi i gyfathrebu yn Saesneg yn rhy aml. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn briodol yn y ddwy iaith; er hyn, nid yw eu medrau darllen Cymraeg yn datblygu cystal. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau pwrpasol i gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru wedi eu mapio'n llwyddiannus gan athrawon. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal leol, y gymuned, y cyfleusterau a'r hanes wrth gynllunio gweithgareddau dysgu diddorol i'r disgyblion. Maent yn trefnu ystod werthfawr o ymweliadau ac ymwelwyr sy'n galluogi disgyblion i ddyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am eu hardal leol a'r gymuned ehangach.

Mae athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth foesegol, eu dealltwriaeth o agweddau ysbrydol a'u gwybodaeth am grefyddau amrywiol. Mae defnydd effeithiol o drafodaethau dosbarth cyfan ar bynciau cyfredol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion sensitif yn llwyddiannus. Mae staff yn hyrwyddo agweddau cymdeithasol a diwylliannol o fewn eu hardal leol ac yng Nghymru yn dda. Fodd bynnag, cyfyngedig yw dealltwriaeth y disgyblion o gydraddoldeb, amrywiaeth a hunaniaethau mewn cymunedau gwahanol.

Mae athrawon yn defnyddio syniadau'r disgyblion ar gyfer gweithgareddau 'cer am her' yn effeithiol. Maent yn addasu'r tasgau i ddiwallu anghenion y disgyblion yn briodol. Er hyn, mae tueddiad i athrawon ddewis yr her drostynt ac i or- arwain y dysgu. Mae hyn yn llesteirio gallu'r disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am beth yr hoffent ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith. Mae hyn yn arafu cynnydd ychydig o ddisgyblion dros amser.

Mae gan bron bob disgybl agwedd gadarnhaol at ei dysgu. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n arbennig. Mae bron bob un yn ymddwyn yn ganmoladwy bob amser. Maent yn gwrtais ac yn rhyngweithio'n dda â chyfoedion ac oedolion, gan ddangos parch, hunanreolaeth a chyfrifoldeb am eu gweithredoedd ar draws yr ysgol.

Mae dull yr ysgol o gefnogi disgyblion ag ADY yn gryfder. Mae arweinwyr yn nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn amserol gan ddefnyddio ystod o ddulliau cynhwysfawr. Maent yn defnyddio ystod eang o raglenni cymorth i fodloni anghenion lles a dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn gosod nodau manwl ac yn mesur cynnydd disgyblion yn ofalus dros amser, gan addasu eu dulliau, yn ôl yr angen.

Mae staff yn adeiladu perthnasoedd cadarnhaol â lleoliadau ac ysgolion ac yn rhannu gwybodaeth fanwl am ddisgyblion er mwyn blaenoriaethu eu lles a darparu cefnogaeth fwriadus i ddiwallu eu hanghenion. Mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth y rhieni o'u plentyn drwy lyfrynnau 'Dyma fi' i gynyddu dealltwriaeth y staff o anghenion a diddordebau'r disgyblion wrth gynllunio'r ddarpariaeth i gefnogi eu lles a'u dysgu yn llwyddiannus. Mae hyn yn cefnogi disgyblion wrth iddynt symud i'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn cymryd camau bwriadus i fynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Maent yn hyrwyddo presenoldeb parhaus yn briodol ac yn datblygu'r Gymraeg yn addas fel rhan o flaenoriaethau gwella’r ysgol. Mae ganddynt systemau cadarn i gefnogi a hybu lefelau presenoldeb uchel. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bod yn bresennol yn yr ysgol yn barhaus ar draws cymuned yr ysgol.

Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella drwy amrywiaeth o brosesau hunanwella cyson. Mae’r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau’n gydwybodol ac yn dangos ymrwymiad cryf i gefnogi a herio’r ysgol. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a’i chymuned yn arbennig o dda. Mae ganddynt gysylltiadau cryf a llwyddiannus â’r gymuned leol i gynnig profiadau dysgu gwerthfawr i ddisgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

# Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2026